# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU – WHC / 2026 / 004

## Canllawiau a pholisïau Eiddo Deallusol (IP) wedi'u hadnewyddu ar gyfer sefydliadau GIG Cymru.

**Dyddiad cyhoeddi:** Mawrth 2026

**Fersiwn:** 1.0

**Statws:** Cydymffurfio a Gweithredu

**Categori:** Gofal Iechyd, Arloesi, Ymchwil, Gwyddoniaeth, Llywodraethiant, Polisi

### Camau gweithredu:

Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn gofyn i holl sefydliadau GIG Cymru weithredu i sicrhau bod eu polisi Eiddo Deallusol (IP) yn cael ei adnewyddu yn unol â'r Canllawiau IP atodedig (Atodiad 1) a'r templed polisi IP atodedig (Atodiad 2), gan ddilyn yr amserlenni a nodir yn y tabl o gamau gweithredu ar dudalennau 3 a 4.

Adroddiad blynyddol o weithgarwch ac effaith IP i'w gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru.

### Camau i'w cymryd gan:

- Holl Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) GIG Cymru
- Holl Ymddiriedolaethau GIG Cymru (Ymddiriedolaethau)
- Holl Awdurdodau Iechyd Arbennig GIG Cymru

### Pwyntiau cyswllt Llywodraeth Cymru:

Gwyddorau Bywyd ac Arloesi / Yr Is-adran Ymchwil a Datblygu, y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru.

hss.innovationtechnologypartnerships@gov.wales

## Diben y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn

Mae sefydliadau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cydnabod y gall staff, yn ystod eu cyflogaeth, gynhyrchu syniadau ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau newydd ac arloesol, a all arwain at greu eiddo deallusol (IP).

Os caiff ei ddatblygu'n briodol, gall IP helpu i amddiffyn buddiannau sefydliadau GIG Cymru a gall gefnogi gwell canlyniadau a phrofiad cleifion, masnacheiddio, gwella gwasanaethau, gwell effeithlonrwydd adnoddau, a chynhyrchu incwm yn sgil:

1. Gweithgarwch ymchwil ac arloesi.
2. Partneriaethau â sefydliadau academaidd, gofal iechyd, diwydiant ac ymchwil.
3. Cynhyrchion a gwasanaethau newydd neu well.

Mae'r cylchlythyr hwn a'r canllawiau cysylltiedig yn cefnogi ac yn galluogi sefydliadau GIG Cymru a'u gweithwyr:

- i ddeall pwysigrwydd IP.
- i gynhyrchu, diogelu a manteisio ar IP i hybu arloesedd.
- i ddarparu gofal gwell i gleifion.
- i ymchwilio i ffynonellau newydd o incwm.
- i amddiffyn gwybodaeth GIG Cymru rhag cael ei hecsbloetio gan eraill.

Nod y canllawiau yw sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu buddiannau sefydliadau GIG Cymru lle y bernir bod IP yn ased; a hwyluso amgylchedd creadigol ac arloesol i weithwyr GIG Cymru weithio ynddo. Mae'r canllawiau a'r templed polisi IP ategol yn cefnogi archwilio cynhyrchion a gwasanaethau newydd sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion gwasanaethau clinigol a gweithredol heb eu diwallu.

## Cyfrifoldebau sefydliadau GIG Cymru

Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn gofyn i holl sefydliadau GIG Cymru weithredu i sicrhau bod eu polisi Eiddo Deallusol (IP) yn cael ei adnewyddu yn unol â'r Canllawiau IP atodedig (Atodiad 1) a chymhwyso'r templed polisi IP atodedig (Atodiad 2).

Bydd hyn yn sicrhau cysondeb rhwng sefydliadau GIG Cymru, yn lleihau costau negodi a chontractio, a bydd yn caniatáu i ddarlun cenedlaethol gael ei sefydlu ar y defnydd o IP a'r modd y manteisir arno ar draws GIG Cymru.

Ar ôl iddo gael ei sefydlu, dylai'r Polisi IP gael ei ymgorffori ar draws holl sefydliadau GIG Cymru mewn modd sy'n:

- cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi.
- diogelu hawliau'r sefydliad a'r cyflogeion.
- gweithredu fel llwyfan ar gyfer cynhyrchu incwm posibl.
- gwella darpariaeth gofal iechyd; ac
- sy’n cydymffurfio â'r holl safonau cyfreithiol perthnasol.

## Camau gweithredu ar gyfer sefydliadau GIG Cymru

| Cam gweithredu | Cwblhau erbyn |
|---|---|
| **Enwebu Uwch-swyddog Cyfrifol (SRO) ar gyfer IP ar lefel Bwrdd neu Weithrediaeth, gyda strwythur sefydliadol a / neu dîm ategol.**<br>Bydd y strwythur hwn yn goruchwylio cynhyrchu polisi IP wedi'i adnewyddu yn unol â'r canllawiau a'r templed IP atodedig, ac fe ddylai gynnwys aelodaeth o dimau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. | 17 Gorffennaf 2026 |
| **Datblygu a chytuno ar Bolisi IP wedi'i adnewyddu, yn seiliedig ar y canllawiau IP a'r templed polisi IP sydd ynghlwm yn Atodiad 1 ac Atodiad 2, yn y drefn honno.** | 20 Rhagfyr 2026 |
| **Nodi metrigau a fydd yn olrhain defnydd a gweithrediad y polisi IP; i gynnwys creu IP, defnyddio'r polisi IP, nifer y prosiectau, cynhyrchu incwm a diogelu IP.**<br>Dylai hyn gynnwys effeithiolrwydd y broses wrth ddiwallu anghenion staff sy'n ymgymryd ag ymchwil, arloesi neu weithgareddau eraill sydd â'r potensial o greu IP. | 20 Rhagfyr 2026 |
| **Darparu adborth cychwynnol ar bolisi a chanllawiau IP i dimau Arloesi ac Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru, i lywio fersiwn ddiffiniol o'r canllawiau a'r templed polisi.** | 20 Rhagfyr 2026 |
| **Nodi proses sefydliadol reolaidd ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y Polisi a Chanllawiau IP o fewn eu sefydliad.** | 20 Rhagfyr 2026 |

| | |
|---|---|
| Dylai hyn gynnwys cael adborth gan staff ynghylch ba raddau y mae'r broses a'r Polisi IP wedi hwyluso neu wedi bod yn rhwystr i weithgareddau ymchwil ac arloesi a/neu wedi effeithio ar weithgareddau o'r fath wrth gydweithio â phartneriaid. | |
| **Cynnal adolygiadau blynyddol o'r Polisi IP, gan gynnwys y defnydd o'r polisi IP a'r metrigau a nodir uchod yn flynyddol i Lywodraeth Cymru.** | Adolygiad cyntaf erbyn diwedd mis Tachwedd 2027 ac yn flynyddol wedi hynny. |

**Cymorth yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.**

Bydd gweithdai cymorth a hyd at dair sesiwn sy'n para awr o gymorth cyfreithiol a gwasanaethau risg pwrpasol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ar gael i bob un o sefydliadau GIG Cymru.

Bydd hyn yn darparu mynediad i'r arbenigedd perthnasol ac yn helpu i ateb ymholiadau penodol sy'n ymwneud â datblygu ac ymgorffori Polisi IP y sefydliad yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

**Dull polisi sy'n sail i'r Cylchlythyr Iechyd hwn.**

Mae'r cylchlythyr hwn, y canllawiau cysylltiedig yn Atodiad 1 a'r templed polisi IP ategol yn Atodiad 2 yn seiliedig ar ganllawiau IP yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fel y'u cyhoeddwyd ar gyfer GIG Lloegr ym mis Tachwedd 2025 - Intellectual property (IP) guidance for the NHS in England - GOV.UK

Mae'r cylchlythyr hwn, y canllawiau cysylltiedig a'r templed polisi IP ategol wedi'u haddasu'n llawn i fodloni gofynion polisi Cymru a'u datblygu mewn partneriaeth â grŵp Arweinwyr Arloesedd GIG Cymru, grŵp Cyfarwyddwyr Ymchwil a Datblygu GIG Cymru a Fforwm Polisi Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2025 / dechrau 2026.